

## CA3 Cymraeg – Y ffurf amhersonol

### Gweithgaredd 3

#### Atebion

	Brawddeg anghywir	Brawddeg gywir	Rheswm
1.	Taflwyd bysgodyn yn ôl i'r afon am ei fod yn rhy fychan.	Taflwyd <b>pysgodyn</b> yn ôl i'r afon am ei fod yn rhy fychan.	Nid yw gwrthrych berf amhersonol yn treiglo.
2.	Prynwyd dŷ am chwarter miliwn o bunnau.	Prynwyd <b>tŷ</b> am chwarter miliwn o bunnau.	Nid yw gwrthrych berf amhersonol yn treiglo.
3.	Cafwyd Daniel hyd i olion Rhufeinig wrth iddo adeiladu'r archfarchnad.	<b>Cafwyd</b> hyd i olion Rhufeinig gan Daniel wrth iddo adeiladu'r archfarchnad.	Pan wyt ti'n defnyddio'r ferf amhersonol, cofia na ddylai goddrych fod yn y frawddeg, gan nad wyt ti wedi enwi person penodol sy'n gwneud y weithred.
4.	Sgoriwyd Cari y gôl a enillodd y gêm yn yr eiliad olaf.	<b>Sgoriwyd</b> y gôl a enillodd y gêm yn yr eiliad olaf gan Cari.	Pan wyt ti'n defnyddio'r ferf amhersonol, cofia na ddylai goddrych fod yn y frawddeg, gan nad wyt ti wedi enwi person penodol sy'n gwneud y weithred.

5.	Gwelwyd gynnydd mawr yn y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.	Gwelwyd cynnydd mawr yn y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.	Nid yw gwrthrych berf amhersonol yn treiglo.
----	--	--	--